

Telerau ac Amodau ar gyfer Lleoedd y Cynnig Gofal Plant a Ariennir 2018-19 (Gweithredu'n Gynnar)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr o ofal plant a Darpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN) a ariennir gan y llywodraeth i rieni plant tair a phedair oed sy'n gymwys ac yn gweithio am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Lluniwyd canllaw gan Lywodraeth Cymru yn rhoi manylion ynghylch sut caiff y cynllun ei weithredu a chafodd y telerau ac amodau hyn eu paratoi er mwyn cydymffurfio â'r Canllaw hwn. Os digwydd bod y Canllaw yn cael ei ddiwygio, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cadw'r hawl i ddiwygio'r telerau ac amodau hyn unrhyw bryd wrth roi gwybod i'r Darparwr yn ysgrifenedig am y newidiadau.

Yn ystod y Tymor

Yn ystod y tymor (39 wythnos), bydd y 30 awr yn cynnwys un o'r ddau opsiwn isod:

Opsiwn 1: Os bydd plentyn yn mynychu darpariaeth Addysg sy'n gofrestredig gydag Estyn, byddant yn derbyn **10 awr** o ddarpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen a hyd at **20 awr** o ofal plant yr wythnos;

NEU

Opsiwn 2: Os bydd plentyn yn mynychu darpariaeth (Ysgol) a Gynhelir, bydd yn derbyn **12.5 awr** o ddarpariaeth Meithrin y Cyfnod Sylfaen a hyd at **17.5 awr** o ofal plant yr wythnos.

Yn ystod Gwyliau'r Ysgol.

Gall rhiant gael hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir yr wythnos yn ystod naw wythnos gwyliau'r ysgol.

Sut a phryd y gall rhieni ddefnyddio'r cynnig?

Ni all unrhyw blentyn dderbyn cyfanswm o fwy na 30 awr yr wythnos o ofal plant a ariennir yn ystod y tymor neu wyliau'r ysgol.

Dim ond Darparwyr Gofal Plant sy'n gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) (os yng Nghymru) neu gydag Ofsted (os yn Lloegr) sydd yn gymwys ar gyfer cyllid y Llywodraeth.

Bydd y cynnig yn galluogi plant i gael hyd at ddau leoliad gofal plant sy'n gofrestredig gydag AGC yn ogystal â'u lleoliad MCS ar unrhyw ddiwrnod penodol.

Yn ystod y cyfnod gwyliau, felly, gall plentyn ddefnyddio uchafswm o ddau leoliad cofrestredig o dan y cynnig.

Mae rhieni yn gymwys ar gyfer y cynnig gofal plant a ariennir gan y llywodraeth o ddechrau'r tymor sy'n dilyn trydydd pen blwydd eu plentyn tan y mis Medi wedi pen blwydd y plentyn yn bedair oed.

Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018-19, mae amserau'r tymor fel a ganlyn:

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor yn Dechrau	Diwedd Hanner Tymor	Tymor yn dod i Ben
Hydref	3 Medi 2018	29 Hydref 2018	2 Tachwedd 2018	21 Rhagfyr 2018
Gwanwyn	7 Ionawr 2019	25 Chwefror 2019	1 Mawrth 2019	12 Ebrill 2019
Haf	29 Ebrill 2019	27 Mai 2019	31 Mai 2019	22 Gorffennaf 2019

Cyfradd Cyflog

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu cyfradd o £4.50 yr awr ar gyfer plant sy'n derbyn y cynnig. Nid yw'r gyfradd hon yn cynnwys bwyd. Gall darparwyr godi ffioedd ychwanegol i rieni am fwyd; fodd bynnag ni all hwn fod yn fwy na £7.50 y diwrnod.

Canllawiau Llywodraeth Cymru o ran gosod ffioedd ychwanegol o dan y cynnig ar gyfer sesiwn gofal dydd llawn (tua 10 awr) yw na ddylid codi mwy na £7.50 y diwrnod ar rieni (byddai hyn yn cynnwys tri phryd bwyd am £2 y pryd a dau fyrbryd am dâl o 75c yr un). Ar gyfer sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr) ni ddylid codi mwy na £4.75 ar rieni (dau bryd o fwyd am £2 yr un ac un byrbryd am 75c). Ar gyfer gofal sesiynol pan na ddarperir pryd o fwyd ond bod plant yn derbyn byrbryd, y canllawiau yw na ddylid codi mwy na 75c y diwrnod ar rieni am fyrbryd.

Hefyd, gall darparwyr godi am weithgareddau a thrafnidiaeth, megis teithiau oddi ar y safle sy'n peri cost ychwanegol neu godi/gollwng plant. Ni all darparwyr godi cyfraddau ychwanegol fesul awr os byddent fel arfer yn codi mwy na £4.50 yr awr. Hefyd, dylai rhieni fod yn gallu tynnu eu plentyn allan o weithgareddau oddi ar y safle y telir amdanynt ac ni ddylai cyfranogi yn y fath weithgareddau fod yn amod er mwyn defnyddio'r lleoliad gofal plant.

Ni chaiff taliadau ar gadw neu ffioedd eraill eu talu gan Gyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) ond gall lleoliadau godi ar rieni/gofalwyr os yw'n rhan o'u telerau a'u hamodau arferol.

Mae'n bosibl y bydd arian ar gael i gefnogi plant sydd ag Anghenion Ychwanegol (mae Canllaw ar wahân ar gael).

Presenoldeb

Mae'n rhaid i ddarparwyr roi wybodaeth am bresenoldeb i Dîm Cynnig Gofal Plant y Cyngor yn wythnosol er mwyn i ddata gael ei goladu a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cyngor. Rhoddir dyddiadau cau ynghyd â chyfarwyddiadau ar gyfer system monitro ddewisol y Cyngor.

Taliadau

Bydd y Cyngor yn gwneud ôl-daliadau ar ddiwedd pob mis i ddarparwyr, yn dilyn derbyn anfoneb ddilys y mae'n rhaid iddi ddyfynnu rhif anfoneb unigryw, rhif archeb brynu y Cyngor, enwau'r plentyn/plant, rhif/au adnabod unigryw ac oriau presenoldeb.

Dylid cyfeirio anfonebau at Taliadau Canolog, Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR a'u hanfon ar ffurf PDF trwy e-bost at vale.childcareoffer@newport.gov.uk. Y telerau talu yw 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys.

Caiff anfonebau eu gwirio gan y Tîm Cynnig Gofal Plant yn erbyn cofnodion presenoldeb a gyflwynir gan y darparwr.

Os digwydd bod gordaliadau i'r darparwr, oherwydd cymhwysedd sy'n newid neu amgylchiadau eraill, bydd y Cyngor yn cysylltu â'r darparwr i drefnu ad-daliad trwy nodyn credyd neu gywiriad ar anfoneb y mis canlynol.

O dan amgylchiadau eithriadol, gall y Cyngor gytuno i dalu taliad argyfwng i ddarparwr o flaen llaw. Os bydd angen, dylid gofyn am hyn ar ffurflen gais y darparwr.

Cytundebau Amodol

Mae'r cytundeb amodol i ddarparu gofal plant rhwng y rhiant a darparwr y gofal plant a dylid rhoi tystiolaeth trwy lofnodi contract ysgrifenedig rhwng y rhiant a darparwr y gofal plant.

Dylai darparwyr sicrhau bod cytundebau ysgrifenedig â phob rhiant sy'n ymgymryd â'u hawl am ddim yn rhestru unrhyw daliadau ychwanegol yn glir.

Mae'r Cyngor yn cytuno talu'r costau gofal plant ar gyfer yr oriau a nodir uchod ar gyfer rhieni cymwys yn unig. Bydd unrhyw oriau ar ben hyn yn drefniant preifat rhwng y darparwr gofal plant

a'r rhiant/rhieni.

Bydd y Cyngor yn pennu cymhwysedd y rhieni, yn seiliedig ar y meini prawf cymhwyso, a bydd yn rhoi rhif adnabod unigryw i bob rhiant cymwys sydd i'w ddefnyddio gan Ddarparwyr Gofal Plant wrth gyflwyno hawliadau.

Mae'n rhaid bod yr holl rieni cymwys yn byw mewn codau post penodol a nodir fel yr ardaloedd peilot.

Pan fydd rhieni/gofalwyr yn peidio â bod yn gymwys i dderbyn gofal plant a ariennir, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r darparwr am ddyddiadau dechrau a gorffen Cyfnod Eithrio Dros Dro (wyth wythnos).

Os na fydd rhieni/gofalwyr yn dod yn gymwys erbyn diwedd y cyfnod eithrio, ni fydd y Cyngor bellach yn gyfrifol am dalu am ofal plant ar ôl y cyfnod hwn. Bydd y darparwr yn gyfrifol am geisio taliadau gan y rhieni/gofalwyr ar gyfer gofal plant a gymerwyd ar ôl i'r cyfnod eithrio ddod i ben.

Telerau ac Amodau

Meini Prawf

Gofynion Lleiaf:

1. Mae'n **rhaid** i'r Darparwr fod yn gofrestredig gyda'r corff rheoleiddio priodol, sef Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer Cymru ac Ofsted ar gyfer Lloegr ac mae'n rhaid iddo sicrhau bod y gwasanaeth a gynigir yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gadw cymwysterau staff a gwiriadau GDG yn gyfredol, bod â Pholisïau a Gweithdrefnau digonol a phriodol mewn grym a'u cadw'n gyfredol, mynd i gontractau tryloyw rhwng Rhieni a Darparwyr.
2. Os digwydd y caiff eich cofrestriad ei ganslo neu ei wahardd dros dro, mae'n rhaid i chi roi gwybod i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor a'r Tîm Cynnig Gofal Plant ar unwaith. Ni chaiff unrhyw arian ei dalu yn ystod unrhyw gyfnod pan na fydd y lleoliad yn gofrestredig.
3. Bydd y Darparwr yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, arweiniad a chodau ymarfer Diogelu. Bydd y Darparwr yn glynu at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Caiff yr holl staff eu hyfforddi i'r lefel briodol. Bydd y Darparwr yn sicrhau y caiff yr holl wiriadau GDG perthnasol eu cynnal mewn perthynas â holl staff yn ddibynnol ar lefelau eu cysylltiad ag unigolion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.
4. Bydd y Darparwr yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig a chynllun Atgyfeirio Anghenion Dysgu Ychwanegol y Cyngor.
5. Bydd y Darparwr yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n perthyn i gydraddoldeb a hawliau dynol a'r holl arweiniad perthnasol a Chodau Ymarfer a Pholisi Cydraddoldeb a Pholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor. Bydd y Darparwr yn sicrhau na fydd unrhyw wahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn ar seiliau hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu unrhyw amgylchiadau eraill. Bydd y Darparwr yn cymryd mesurau rhesymol i hyrwyddo mynediad at wasanaethau a gwybodaeth.
6. Bydd y Darparwr yn cydymffurfio bob amser â'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad sy'n perthyn i weithredu gwasanaeth a lleoliad y gwasanaeth gofal plant (heb effeithio ar ei gyffredinolrwydd) yn benodol:
 - Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed;
 - Deddf Gofal Plant 2006 (gan gynnwys adran 101 i ddarparu gwybodaeth am y plant yn eu gofal pan ofynnir iddynt wneud hynny gan y Cyngor);

- Deddf Plant 1989;
- Deddf Plant 2004;
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014;
- Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

7. Parthed materion iechyd a diogelwch, bydd y Darparwr yn cyflwyno ar gais gan y Cyngor, gofnodion digonol o gyfarwyddo a hyfforddi ei staff a'i weithdrefnau ysgrifenedig sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
8. Mae'n rhaid i'r Darparwr fod yn fodlon gweithredu ar y cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor a'r Tîm Cynnig Gofal Plant a'i gymdeithion (lle y bo'n berthnasol) a rhoi eu hargymhellion ar waith.
9. Ar ôl cofrestru gyda'r Cynnig Gofal Plant, bydd y Darparwr yn destun cyfathrebu gan Llywodraeth Cymru a'u hymchwilyr penodedig at ddibenion monitro ac arfarnu.
10. Ar ôl cofrestru gyda'r Cynnig Gofal Plant, bydd y Darparwr yn destun monitro rheolaidd gan yr Awdurdod Lleol, ac yn cyflwyno cofnodion presenoldeb ac absenoldeb yn wythnosol. Caiff cofnodion presenoldeb eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Derbyn Plant:

11. Mae'r Darparwr yn rhydd i osod ei feini prawf ei hun ar gyfer derbyn plant, cyhyd â'u bod yn cydymffurfio ag Arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynnig a'r holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb a deddfwriaeth nad yw'n gwahaniaethu perthnasol. Dylai fod gan bob rhiant yr un hawliau i allu cael darpariaeth am ddim, ni waeth os ydynt yn dewis talu am ddarpariaeth ychwanegol.
12. Dylai darparwyr sicrhau bod eu gwybodaeth am dderbyniadau yn glir ac yn hygyrch i rieni a'u bod yn glir a thryloyw o ran pa oriau/sesiynau y gellir eu cymryd fel hawl am ddim.
13. Bydd angen i ddarparwyr sicrhau bod rhieni'n trafod eu gofynion o ran gofal plant gyda nhw cyn i riant wneud cais i'r Cyngor.
14. Bydd gan bob aelod o staff a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb dros lechyd a Diogelwch er mwyn cydymffurfio â Gweithdrefnau/Polisi lechyd a Diogelwch y Darparwr, ac mae'n rhaid i'r Darparwr sicrhau y cedwir gweithdrefnau a pholisïau o'r fath o dan adolygiad rheolaidd a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.
15. Bydd y Darparwr yn gwneud pob ymdrech i gefnogi presenoldeb da yn y lleoliad, a bydd yn adrodd ar unwaith os bydd plentyn yn methu mynychu gofal plant a archebwyd am ddwy wythnos yn olynol, heb reswm da gan riant / gofalwr, yn unol â'r canllaw ar bresenoldeb yn y cynnig gofal plant.
16. Bydd y Darparwr yn sicrhau na chaiff mwy na naw wythnos o hawl i wyliau eu defnyddio bob blwyddyn. Dyrennir tair wythnos o ddarpariaeth gwyliau i blant ar ddechrau pob tymor. Gellir cario unrhyw wythnosau heb eu defnyddio drosodd a'u defnyddio yn y tymor nesaf, cyhyd â'u bod yn gymwys i dderbyn y cynnig o hyd. Fodd bynnag, ni all rhieni 'ymestyn' eu hawl dros wythnosau neu drosglwyddo oriau nas defnyddiwyd dros wythnosau.
17. Bydd y Darparwr yn cyflwyno hawliadau a lenwyd yn llawn ar gyfer gofal plant a archebwyd, yn fisol, yn ôl dyddiadau cau a ddarparwyd gan Dîm y Cynnig Gofal Plant.
18. Bydd y Darparwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor os byddant yn ymwybodol o newid mewn

amgylchiadau rhiant, a allai effeithio ar ei gymhwysedd i'r cynnig gofal plant.

19. Bydd y Darparwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor ar unwaith os bydd yn amau neu'n dod yn ymwybodol o ymddygiad twyllodrus.
20. Bydd y Darparwr yn sicrhau bod pob parti perthnasol e.e. y perchennog, y rheolwr, y goruchwylydd, y staff, y pwyllgor rheoli ayyb yn cael gwybod yn llawn am y gofynion ar gyfer cofrestru fel Darparwr y Cynnig Gofal Plant.

Iechyd Ariannol:

21. Mae gweithdrefnau clir ar waith er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol. Bydd angen i'r Darparwr sicrhau, pe bai cynaliadwyedd ariannol yn cael ei beryglu, y rhoddir gwybod i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor a'r Tîm Cynnig Gofal Plant yn ddi-oed fel y gellir rhoi cefnogaeth lle y bo'n rhesymol ymarferol.
22. Bydd angen i'r Darparwr ateb i Gyllid A Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer pob treth berthnasol sy'n daladwy.
23. Ni chaniateir i unrhyw unigolyn neu Gwmni dderbyn arian gan y Cyngor os byddant wedi'u datgan yn fethdalwyr neu'n destun methdaliad neu achos dirwyn i ben; neu'n euog o gamymddwyn proffesiynol gan gynnwys os byddant yn masnachu o dan enw arall.
24. Ni chaniateir i unrhyw unigolyn neu Gwmni dderbyn arian gan y Cyngor os cawsant euogfarn o: gynllwynio, llygredd, llwgrwobrwyo neu wyngalchu arian.

Yswiriant:

25. Mae'n rhaid bod gan y Darparwr:
 - a) Yswiriant atebolrwydd y cyflogwr mewn cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion sydd mewn grym ar y pryd;
 - b) Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus am swm ac ystod yr yswiriant sy'n briodol am wasanaethau gofal plant a ddarperir gan gynnwys popeth y mae rhwymedigaeth indemniad neu iawndal ar ei gyfer o dan y Telerau hyn.
26. Bydd y Darparwr yn indemnio'r Cyngor rhag ac yn erbyn pob gweithred, hawl, cost a thraul gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i anafiad personol (gan gynnwys anafiad sy'n achosi marwolaeth), neu golled neu ddifrod i eiddo neu fel arall o ganlyniad i ddarparu gwasanaeth ac na ellir ei briodoli i esgeulustod gan y Cyngor, ei gyflogeion neu ei asiantaethau. Drwyddi draw, bydd gan y Darparwr yswiriant dilys a phriodol sy'n gyson â gofynion statudol a chyfreithiol, yn gyson ag ystod o wasanaethau yr ymgymerir â nhw gan y Darparwr. Bydd ar bob darparwr rwymedigaeth i fod ag Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gydag yswiriant o £2,000,000 o leiaf o ran unrhyw achos a bydd yn darparu copi o'r dystysgrif yswiriant i'r Cyngor os y gofynnir amdani.
27. Bydd y darparwr yn gyfrifol am ateb unrhyw hawliadau am iawndal yn dilyn esgeulustod gan y darparwr er mwyn gwireddu ei g/chyfrifoldebau o dan y Cytundeb.

Is-gontractio ac Aseinio:

28. Ni fydd y Darparwr yn aseinio neu is-gontractio ei gyfrifoldebau a'i hawliau o dan y Cytundeb hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor o flaen llaw.

Cwynion:

29. Bydd y Darparwr yn rhestru gweithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â chwynion Defnyddwyr Gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r gweithdrefnau hyn gynnwys cofnod ysgrifenedig o'r holl gwynion ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd. Bydd y gweithdrefnau a'r cofnodion ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig y Cyngor neu ei gynrychiolwyr ar gais.

Force Majeure (Amgylchiadau nas Rhagwelwyd):

30. Gall y naill barti neu'r llall i'r contract hwn hawlio rhyddhad o atebolrwydd oherwydd methu perfformio ei rwymedigaeth i'r graddau bod hyn yn sgil Digwyddiad Force Majeure.
31. Ni all parti hawlio rhyddhad os gellir priodoli'r Digwyddiad Force Majeure i'w weithred fwriadol, esgeulustod neu fethu cymryd rhagofalon rhesymol yn erbyn y Digwyddiad Force Majeure perthnasol.
32. Ni all Parti yr Effeithir Arno hawlio rhyddhad o ganlyniad i fethiant neu oedi gan unrhyw berson arall o ran perfformio rhwymedigaethau person arall o dan y Contract gyda'r Parti yr Effeithir Arno (heblaw bod y person arall yn cael ei atal ei hun rhag cydymffurfio â'r rhwymedigaethau o ganlyniad i Ddigwyddiad Force Majeure neu ei ddal yn ôl rhag gwneud hynny).
33. Bydd y Parti yr Effeithiwyd arno yn rho rhybudd ysgrifenedig ar unwaith o'r Digwyddiad Force Majeure. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion o'r Digwyddiad Force Majeure ynghyd â thystiolaeth o'i effaith ar rwymedigaethau'r Parti yr Effeithiwyd arno, ac unrhyw gamau gweithredu y mae'r Parti yr Effeithiwyd arno yn bwriadu eu cymryd er mwyn lliniaru ei effaith.
34. Cyn gynted ag sy'n ymarferol yn dilyn hysbysu'r Parti yr Effeithiwyd arno, bydd y parti yr effeithiwyd arno yn defnyddio pob ymdrech rhesymol i barhau i berfformio, neu ailafael ym mherfformiad y Contract hwn drwy gydol y fath Ddigwyddiad Force Majeure ac os mai'r Darparwr Gwasanaeth yw'r Parti yr Effeithiwyd Arno, bydd yn cymryd pob cam yn unol ag Arfer Diwydiant Da i oresgyn neu leihau canlyniadau'r Digwyddiad Force Majeure.
35. Bydd y Parti yr Effeithiwyd arno yn hysbysu'r parti arall cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r Force Majeure ddod i ben, nad yw bellach yn peri i'r Parti yr Effeithiwyd arno fethu cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn. Yn dilyn hysbysiad o'r fath, bydd y Contract hwn yn parhau i gael ei berfformio ar y telerau a oedd yn bodol yn union cyn i'r Digwyddiad Force Majeure ddigwydd heblaw y cytunwyd fel arall gan y partïon.

Amodau Cyffredinol

36. Mae'r Darparwr yn cytuno y bydd yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaethau Arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr: Y Cynnig Gofal Plant (fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd) o ran y bwriedir i unrhyw un o'r darpariaethau ymwneud â'r gwasanaethau i'w darparu gan y Darparwr o dan y cynllun hwn.
37. Bydd y Darparwr yn darparu i'r Cyngor neu i LIC ar gais unrhyw wybodaeth neu ddata sydd ganddo sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau o dan y cynllun hwn, a bydd methu rhoi'r fath wybodaeth neu ddata yn rhoi'r hawl i'r Cyngor ddod â'r Cytundeb hwn i ben.
38. Cytunir y bydd gan y Cyngor yr hawl i amrywio'r telerau a'r amodau hyn unrhyw bryd yn dilyn unrhyw newid yn Arweiniad LIC neu delerau ac amodau sy'n effeithio ar ariannu'r cynllun wrth hysbysu'r Darparwr.
39. Os digwydd bod unrhyw daliad yn cael ei wneud gan y Cyngor i'r Darparwr naill ai ar gam neu o ganlyniad i'r Darparwr yn rhoi gwybodaeth anghywir i'r Cyngor, bydd y Darparwr yn ad-dalu unrhyw arian sydd arno i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod o'r cais.

Dechreuad a Pharhad

Bydd y Cytundeb hwn yn dechrau ar 1 Medi 2018 a chaiff ei adolygu'n flynyddol o leiaf, neu yn ôl yr angen yng ngoleuni arweiniad sy'n dod i'r amlwg.

Dod â'r Cytundeb i Ben

1. Os digwydd bod un parti neu'r llall yn dymuno dod â'r cytundeb hwn i ben, rhoddir o leiaf un tymor llawn o rybudd yn ysgrifenedig i'r partïon a enwir o fewn y cytundeb hwn. Os digwydd bod y Darparwr yn gweld ei fod yn cael trafferth wrth fodloni telerau ac amodau'r cytundeb hwn, anogir y Darparwr i gysylltu â'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd er mwyn ceisio datrys y problemau.
2. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn dod â'r Cytundeb hwn i ben trwy roi un mis o rybudd i'r Darparwr o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:
 - a) mae LIC yn tynnu arian y cynllun yn ôl neu'n rhoi gwybod i'r Cyngor am amrywiadau i'r cynllun; neu
 - b) mae'r Darparwr yn torri unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb hwn.
3. Caiff y Cyngor ddod â'r Cytundeb hwn i ben ar unwaith o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:
 - a) os bydd y Darparwr yn torri unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb hwn yn ddifrifol.
 - b) os codir unrhyw bryder o ran diogelu mewn perthynas â'r gwasanaethau gofal plant a ddarperir gan y Darparwr neu
 - c) os bydd y Cyngor yn amau bod unrhyw weithred twyllodrus wedi'i chyflawni gan y Darparwr.

Llofnod a Datganiad

Drwy lofnodi'r cais hwn, rydych chi'n cytuno i bob un o'r telerau ac amodau sydd wedi'u nodi yma neu y ceir cyfeiriad atyn nhw yma.

Os darganfyddir bod unrhyw wybodaeth a roddoch yn ystod tymor y cytundeb hwn yn anwir neu'n anghywir, caiff y cyllid ei dynnu'n ôl ac efallai y caiff camau pellach eu cymryd i adennill unrhyw gostau.

Rwyf wedi darllen yr uchod ac yn cytuno â'r telerau a'r amodau

Llofnod	
Enw mewn llythrennau BREISION	
Swydd	
Dyddiad	

Dylech chi gadw copi wedi'i lofnodi o'r ffurflen ar gyfer eich cofnodion.

Dychwelwch y ffurflen at:

E-bost: vale.childcareoffer@newport.gov.uk

**Y Tîm Cynnig Gofal Plant
Cyngor Dinas Casnewydd
Plasty Malpas Court
Oliphant Circle
Casnewydd
NP20 6AD**